**Yr Ail Gynulliad**
**Cyfarfod Llawn (92)**

**Dydd Mercher, 13 Hydref 2004**

# AGENDA

**Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Motion to Suspend Standing Orders**
**NDM2124 Karen Sinclair (Clwyd South)**

That the National Assembly for Wales acting under Standing Order 37.5 agrees to suspend the notice requirements of Standing Order 6.13 to enable NNDM 2123 tabled today, 12 October 2004, to be debated in Plenary on Wednesday 13 October 2004.

**Eitem 2**
**NNDM2123 Karen Sinclair (Clwyd South)**
To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with paragraphs 1(1) and 3 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 1998 appoints the following local authority members to the Local Government Partnership Council for Wales:

***County and County Borough Councils (10 representatives)***

Cllr A. Aldridge
Cllr J. Hopkins
Cllr M. Gravell
Cllr M. Jones
Cllr R. Berman
Cllr R. Bright
Cllr B. Wellington
Cllr D. Lloyd Evans
Cllr J. James
Cllr D. Bowen

**Community Councils (2 representatives)**
Cllr M Stephens
Cllr T Thomas

**Fire Authorities (1 representative)**
Cllr D Rees

**National Park Authorities (1 representative)**
Cllr S. Watkins

**Eitem 3**
**Cwestiynau Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 4**
**Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 5**
**Dadl ar y Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy**
**NDM2119 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu 'Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy 2004-2007'

2. Yn diolch i'r unigolion, sefydliadau a phwyllgorau'r Cynulliad a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu drafft.

3. Yn nodi'r Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy 2004 ar hynt y gwaith o weithredu'r Cynllun.

4. Yn croesawu'r ffaith fod y Cynllun Gweithredu'n canolbwyntio ar gamau ymarferol i fynd i'r afael â'r heriau a nodwyd yn yr adolygiad ffurfiol o'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy, yn arbennig y camau gweithredu arfaethedig ar newid hinsawdd a chaffael.

Cliciwch yma i weld y Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy
Cliciwch yma i weld yr Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*
**(1)**
**(2) + (3)**
**(4), (5), (6), (7), (8) + (9)**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Gweinidog:

(a) I ddiwygio Polisi Cynllunio Cymru fel bod rhagdybiaeth o blaid ynni adnewyddadwy; a

(b) I adolygu ar frys y cynnydd tuag at greu dangosyddion datblygu cynaliadwy clir i alluogi pennu a monitro targedau mwy mesuradwy.

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i ddarparu dangosydd ar gyfer Datblygu Cynaliadwy i'w ddefnyddio yn debyg i'r modd y defnyddir CMC i fesur perfformiad economaidd.

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod uchelgais amcanion y Cynllun Gweithredu, ac yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod Datblygu Cynaliadwy yn un o'r prif feini prawf ar gyfer gwariant cyfredol.

**Gwelliant 4 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i fod yn hyblyg gyda'i tharged ar gyfer Ynni Adnewyddadwy erbyn 2010, er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar dyrbinau gwynt ar y tir.

**Gwelliant 5 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y cyfraniad y mae chwaraeon cefn gwlad yn ei wneud i Gymru gynaliadwy.

**Gwelliant 6 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn beirniadu diffyg ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynlluniau amaeth-amgylcheddol.

**Gwelliant 7 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn beirniadu Llywodraeth Cynulliad Cymru am wrthod caniatáu i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wahardd chwarela newydd ar raddfa eang yn ei Gynllun Datblygu Unedol.

**Gwelliant 8 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod y wiwer goch yn parhau i gael ei hamddiffyn wedi i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru werthu coetir sy'n eiddo i'r Cynulliad.

**Gwelliant 9 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru) - TYNNWYD YN ÔL**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn beirniadu'r ffaith bod cymunedau cynaliadwy ym Mhowys wedi cael eu tanseilio trwy ddefnyddio "lles cynllunio", sy'n gwneud tai yn llai fforddiadwy.

**Eitem 6**
**Dadl ar Adolygiad y Comisiwn Annibynnol o Gynllun y Sector Gwirfoddol**
**NDM2120 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu argymhellion y Comisiwn Annibynnol a gynhaliodd yr adolygiad o Gynllun y Sector Gwirfoddol;

2. Yn nodi'r Cynllun Gweithredu Strategol - y Cam Cyntaf, sy'n pennu ymateb cychwynnol Llywodraeth Cynulliad Cymru;

3. Yn cydnabod bwriad y Gweinidog i gydweithio â'r Sector Gwirfoddol i weithredu'r argymhellion.

Cliciwch yma i weld Adroddiad Terfynol y Comisiwn Annibynnol i Adolygu Cynllun y Sector Gwirfoddol
Cliciwch yma i weld Cynllun y Sector Gwirfoddol - *Ni fydd y ddogfen hon ar gael ar We'r Siambr*
Cliciwch yma i weld y Cynllun Gweithredu Strategol – y Cam Cyntaf - *Dim copi Cymraeg ar gael*

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1) + (2)**
**(3) + (4)**

**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Dileu pwynt 2 a rhoi'r canlynol yn ei le:

Yn cydnabod bod cam cyntaf y cynllun gweithredu strategol yn derbyn cefnogaeth drawsbleidiol eang.

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ym mhwynt 3, dileu’r geiriau "Yn cydnabod bwriad y Gweinidog i gydweithio â'r", ac yn eu lle rhoi "Yn cydnabod y bydd yn rhaid i'r Gweinidog gydweithio â phob sector a phob sefydliad sy'n gweithio i hyrwyddo datblygiadau o fewn y".

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Gweinidog i fynd ati’n drylwyr i fonitro hynt y gwaith o gyflawni’r cynllun gweithredu strategol ac i adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Cynulliad llawn.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Ac wrth wneud hynny, i gadarnhau’r egwyddorion sylfaenol y mae'r cynllun yn seiliedig arnynt, sef annibyniaeth a phartneriaeth â'r sector gwirfoddol, ac yn ogystal â hynny i gytuno ar y trefniadau ar gyfer gweithredu argymhellion y comisiwn a pharatoi'r cynllun gweithredu strategol gyda Chyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol.

**Eitem 7**
**Dadl fer - NDM2121 Brynle Williams (Gogledd Cymru);** Mynd i'r afael â'r fasnach gig anghyfreithlon.

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**